PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# SUT MAE CEFNOGI HAWLIAU PLANT BACH

*Mae'r blynyddoedd cynnar yn "gyfnod allweddol ar gyfer gwireddu hawliau plant" (y Cenhedloedd Unedig 2006, t. 3).*

Mae plant bach yn dysgu am eu hawliau trwy'r gofal a'r cyfleoedd maen nhw'n eu cael. Maen nhw'n dechrau mynegi eu hunain, eu cyd-ddibyniaeth ar eraill a sut maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi. Maen nhw hefyd yn dechrau dysgu rhannu a gwneud dewisiadau, ac yn dysgu am eu lle yn y byd.

| | |
|---|---|
| Cael fy ngharu a bodloni fy anghenion | Erthygl 6 and 27 |
| Teimlo'n ddiogel a sicr | Erthygl 19 |
| Bod pawb sy'n gofalu amdanaf yn siarad â'i gilydd er mwyn fy neall yn well a sicrhau fy mod i'n teimlo'n ddiogel a sicr ble bynnag y byddaf fi | Erthygl 19 |
| Meithrin perthnasoedd cadarn â'r bobl sy'n gofalu amdanaf | Erthygl 18 |
| Pobl i ofalu amdanaf, i sicrhau fy mod i'n ddiogel ac i'm helpu i dyfu | Erthygl 6 |
| Anogaeth i fod yn 'fi fy hun' ac amlygu fy mhersonoliaeth | Erthygl 7 and 29 |
| Cymorth i ddeall emosiynau a theimladau mawr; mae'r rhain yn dal i fod mor newydd i mi | Erthygl 6 |
| Cael digon o gyfleoedd i chwarae, a lle i mi arwain y chwarae | Erthygl 31 |
| Archwilio'r byd o'm cwmpas a'm lle i yn y byd hwnnw; gan ddechrau wrth fy nhraed | Erthygl 8 and 28 |
| Datrys problemau a dysgu dal ati a chael cymorth pan fydd pethau'n drech na fi | Erthygl 28 |
| Cymorth o ran dysgu sut i rannu gyda phlant eraill | Erthygl 13 |
| Eich bod yn ceisio gweld y byd trwy fy llygaid i a deall beth sy'n bwysig i mi | Erthygl 3 |
| Eich bod yn meddwl am beth sydd orau i mi wrth wneud penderfyniadau amdanaf | Erthygl 3 |

**WWW.CHILDRENINWALES.ORG.UK/CY**

# FY LLAIS

**Erthygl 12 –** yr hawl i fynegi barn yn rhydd ar bob mater sy'n effeithio ar y plentyn ac i'r farn honno gael ei hystyried. Mae plant yn gyfranogwyr gweithredol yn y teulu, y gymuned a'r gymdeithas.



Efallai y gallwch fy neall yn well erbyn hyn; wrth i mi ddechrau pwyntio; eich arwain i leoedd; siarad am yr hyn mae arnaf ei eisiau a'i angen. Ond ni fydd pawb yn deall fy ffyrdd arbennig nac yn gwybod amdanynt, wrth i mi ddechrau archwilio'r byd o'm cwmpas, bydd angen i chi siarad â'r bobl eraill sy'n gofalu amdanaf a sôn amdanaf

Mae angen cymorth arnaf i fynegi, ffurfio a rhannu fy syniadau a'm meddyliau fy hun. Mae angen cyfleoedd arnaf i wneud penderfyniadau wrth i mi archwilio, chwarae a chael cyfle i wneud dewisiadau. Mae'n bosib y bydd angen i chi wylio a gweld beth rwy'n ei wneud; bydd hyn yn eich helpu i'm deall yn well

Wrth i chi fy helpu i wneud hyn, byddaf fi'n magu'r hyder i wneud mwy ohono



PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

**WWW.CHILDRENINWALES.ORG.UK/CY**